**CYMDEITHAS TAI WALES & WEST**

**ADRODDIAD I'R BWRDD – 23 EBRILL 2026**

**COMISIYNYDD Y GYMRAEG – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae Grŵp Tai Wales & West (GTWW) yn gweithredu o dan Gynllun Iaith Gymraeg (CIG) a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Datblygwyd y Cynllun o dan Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae'n nodi sut mae'r Grŵp yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

1.2 Nid gofyniad statudol yn unig yw'r Cynllun; mae hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y Grŵp i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o ansawdd uchel, gyda disgwyliadau clir o ran cysondeb, atebolrwydd a safonau gwasanaeth ar draws pob rhan o'r sefydliad.

1.3 Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn cymeradwyo cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer y Gymraeg ( Atodiad 1 ), sy'n cwmpasu naw maes gyda chyfres o dasgau cysylltiedig. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gweithgarwch rhwng mis Mawrth 2025 a mis Chwefror 2026.

1.4 Wrth i'r Grŵp baratoi ar gyfer Safonau'r Iaith Gymraeg sydd i ddod i rym, bydd cynllun gweithredu pontio diwygiedig yn cael ei weithredu. Bydd y cynllun trosiannol yn canolbwyntio ar alinio polisïau, gwasanaethau a phrosesau â'r Safonau statudol newydd.

1.5 Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn cadarnhau bod GTWW yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg drwy gyfathrebu dwyieithog, darparu gwasanaethau a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad.

## 2.0 Sgiliau Cymraeg

2.1 Caiff sgiliau'r Gymraeg eu casglu ar gyfer pob gweithiwr newydd yn ystod y cyfnod sefydlu, ac mae staff presennol wedi cwblhau hunanasesiad sy'n cwmpasu siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Mae'r rhain yn cael eu cofnodi ar y system AD a gellir eu diweddaru wrth i sgiliau ddatblygu. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â chanllawiau recriwtio Comisiynydd y Gymraeg a'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR).

2.2 Ar hyn o bryd, mae 167 o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar draws y Grŵp, gan gynnwys 62 o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r gwaith o gasglu data ar gyfer 96 aelod o staff yn parhau a bydd yn cael ei gwblhau fel rhan o gyflwyno'r system AD newydd, People XD, ym mis Gorffennaf 2026. Mae dadansoddiad llawn o lefelau rhuglder fesul adran wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

| Lefel / Adran | Dim sgil | Dechreuwr | Sylfaenol | Canolradd | Uwch | Rhugl | Meistr | Is-gyfanswm | Heb ei gofnodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | 2 | 1 | 1 | | | | | 4 | 0 |
| Bwrdd | 9 | 1 | 2 | | | | | 12 | 0 |
| Gweithrediadau | 149 | 31 | 6 | 8 | 0 | 15 | 0 | 209 | 45 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau | 62 | 23 | 2 | 9 | 0 | 0 | 3 | 99 | 8 |
| Cyllid, Asedau a Datblygu | 39 | 18 | 2 | 6 | 0 | 5 | 0 | 70 | 2 |
| Cambria | 96 | 19 | 3 | 2 | 2 | 10 | 0 | 132 | 38 |
| Cyfanswm | 348 | 92 | 13 | 25 | 2 | 30 | 3 | 513 | 97 |

2.3 Mae gan sawl aelod o'r Bwrdd sgiliau yn y Gymraeg hefyd ar lefelau amrywiol (gweler Atodiad 2).

2.4 Mae trefniadau recriwtio yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau dwyieithog drwy alluogi asesiad priodol o ofynion sgiliau Cymraeg ar gyfer pob rôl. Mae defnyddio fframwaith CEFR yn galluogi GTWW i nodi anghenion ieithyddol yn glir ac yn gymesur, yn hytrach na dibynnu ar y term 'hanfodol' yn unig, a all gyfyngu ar gronfeydd ymgeiswyr. Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i gryfhau'r modd y caiff capasiti dwyieithog ei reoli ar draws y sefydliad.

## 3.0 Hyfforddiant Cymraeg

3.1 Mae GTWW yn parhau i gefnogi dysgu'r iaith Gymraeg drwy 'Say Something in Welsh', Duolingo a'r rhaglen Cymraeg Gwaith, gyda SSiW wedi'i ariannu gan y Grŵp. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddysgwyr gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd, yn rhannol oherwydd bod sesiynau blasu mewnol wedi dod i ben a'r adolygiad parhaus o opsiynau dysgu.

3.2 Er mwyn hyrwyddo gweithle dwyieithog, mae'r deilsen SharePoint 'Dysgu Cymraeg' yn parhau i fod yn amlwg ac wedi'i adnewyddu gydag adnoddau wedi'u diweddaru. Mae adolygiad ehangach ar y gweill, gyda'r nod o ddatblygu un dudalen gynhwysfawr, ddwyieithog erbyn 2026.

3.3 Mae gwaith hefyd wedi dechrau i gyflwyno sesiwn ymsefydlu benodol i'r Gymraeg, gyda chefnogaeth cymuned ar-lein arfaethedig ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg ar fewnrwyd newydd y staff. Mae'r Grŵp yn ystyried pecyn ehangach o opsiynau dysgu, gan gynnwys treialu ap newid ymddygiad ARFer i annog defnydd bob dydd o'r Gymraeg.

3.4 Ar yr un pryd, mae egwyddorion ar gyfer defnydd mewnol o'r Gymraeg yn cael eu datblygu, gan osod gweledigaeth sefydliadol glir ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd, a nodi sut y bydd staff yn cael eu cefnogi drwy hyfforddiant, adnoddau a chyfleoedd i feithrin hyder.

## 4.0 Hyrwyddo'r Gymraeg

4.1 Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo'n weithredol drwy gyfathrebu mewnol a digwyddiadau diwylliannol gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su'mae, Eisteddfodau a Diwrnod Cerddoriaeth Cymru. Cefnogodd GTWW hefyd yr ymgyrch genedlaethol 'Defnyddia dy Gymraeg' i godi ymwybyddiaeth o hawliau preswylwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.

4.2 Parhaodd postiadau misol 'Oeddech chi'n gwybod?' ar SharePoint, yn cynnwys ymadroddion, newyddion, ryseitiau, traddodiadau a digwyddiadau Cymraeg. Derbyniodd y postiadau hyn bron i 1,500 o ymweliadau yn ystod 2025/26.

4.3 Roedd y cyfleoedd dysgu Cymraeg a hyrwyddwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gŵyl Amdani, 'Iaith ar Daith' S4C, Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg ac adnoddau Mentrau Iaith.

4.4 Mae'r brand Iaith Gwaith yn parhau i gael ei ddefnyddio i adnabod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, gyda chefnogaeth troedynnau e-bost, bathodynnau a llinynnau gwddf. Mae adolygiad o'r trefniadau hyn ar y gweill i sicrhau cysondeb a pharodrwydd ar gyfer Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.

4.5 Cefnogodd GTWW hyrwyddo'r Gymraeg yn allanol hefyd drwy bartneriaethau â Menter Iaith, ysgolion, Gyrfa Cymru, a sefydliadau cymunedol, gan ddarparu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymunedol dwyieithog a buddsoddi dros £29,000 mewn mentrau iaith Gymraeg.

4.6 Mae archwiliadau arwyddion wedi'u cwblhau ar draws swyddfeydd a chynlluniau gofal ychwanegol, gyda chamau gweithredu ar y gweill i fynd i'r afael ag anghysondebau ac i gyflwyno canllawiau safonol.

## 5.0 Cyfathrebu yn y Gymraeg

5.1 Mae 66 o breswylwyr wedi gofyn yn ffurfiol am gael cyfathrebu yn y Gymraeg, tra bod 619 yn derbyn copïau dwyieithog o InTouch. Cynyddodd cyfran y trigolion â dewis iaith wedi'i gofnodi o 59% i 67% yn ystod y flwyddyn. Lle nad yw dewisiadau'n hysbys, mae gohebiaeth yn parhau i gael ei hanfon yn ddwyieithog.

5.2 Mae adolygiad o'r modd y caiff dewis iaith ei gofnodi a'i rannu'n fewnol ar y gweill er mwyn cryfhau'r cynnig rhagweithiol a chefnogi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

5.3 Mae gwasanaethau ffôn Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn ystod oriau swyddfa, gyda galwyr yn cael dewis iaith ar y pwynt cyswllt cyntaf. Yn ystod 2025/26, derbyniwyd 935 o alwadau yn y Gymraeg. Bwriedir cynnal adolygiad o'r gwasanaeth ffôn Cymraeg, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau, yn 2026.

5.4 Darperir gwasanaethau cyfieithu gan gyfieithwyr mewnol hyfforddedig, gyda chefnogaeth, pan fo angen, gan ddarparwr allanol. Mae cyflwyno System Desg Gymorth Freshdesk yn 2025 wedi gwella cydlynu, tryloywder a rheoli galw ar gyfer ceisiadau cyfieithu.

5.5 Mae'r wefan a'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn gwbl ddwyieithog, gyda gweithgareddau cwsmer dirgel yn cadarnhau cydraddoldeb rhwng cynnwys Cymraeg a Saesneg.

5.6 Mae gwaith paratoi wedi dechrau ar gyfer Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg gorfodol, a fydd yn cefnogi dealltwriaeth staff o ddyletswyddau cyfreithiol, cyd-destun diwylliannol a phwysigrwydd dewis iaith wrth ddarparu gwasanaethau.

## 6.0 Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Wrth baratoi ar gyfer Safonau'r Gymraeg, mynychodd y Rheolwr Llywodraethu hyfforddiant gan Gomisiynydd y Gymraeg ar weithdrefnau cwynion.

## 7.0 Cyfathrebu a chynllun gweithredu Comisiynydd y Gymraeg

Ni wnaed unrhyw argymhellion na diwygiadau yn dilyn cyflwyno'r adroddiad monitro 2024/25. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, bydd yr adroddiad monitro a'r cynllun gweithredu yn cael eu cyflwyno i'r Comisiynydd yn unol â'r prosesau cytunedig.

## 8.0 Diweddariad ar weithredu Safonau'r Gymraeg

8.1 Cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026 gan y Senedd ym mis Mawrth 2026 a daethant i rym ar 31 Mawrth 2026. Bydd Hysbysiadau Cydymffurfio yn cael eu cyhoeddi i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn dilyn proses ymchwilio.

8.2 Mae'r amserlenni dangosol yn cynnwys cyfarfodydd rhagarweiniol ym mis Mehefin 2026, cyhoeddi Hysbysiadau Cydymffurfio drafft ym mis Tachwedd 2026, a chydymffurfiaeth lawn erbyn mis Hydref 2027.

| | |
|---|---|
| **Mehefin 2026** | Cyfarfodydd rhagarweiniol gyda'r Comisiynydd a chyhoeddi holiadur |
| **Medi 2026** | Cyflwyno ymatebion unigol gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig |
| **Tachwedd 2026** | Anfon Hysbysiadau Cydymffurfio drafft at bob Cymdeithas Dai unigol.<br>Mae'r cyfnod ymgynghori o 12 wythnos yn dechrau. |
| **Mawrth 2027** | Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol |
| **Hydref 2027** | Diwrnod Cydymffurfio |

8.3 Bydd GTWW yn cwblhau Holiadur Ymchwiliad y Safonau er mwyn cefnogi cymhwyso'r Safonau yn deg ac yn gymesur ar draws y Grŵp, gan gynnwys ei is-gwmnïau.

8.4 Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd Iaith Gymraeg i gryfhau goruchwyliaeth, nodi blaenoriaethau ac ymgorffori cydymffurfiaeth gynaliadwy. Bydd diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Awst 2026 ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu trosiannol.

8.5 Mynychodd staff TWW nifer o ddigwyddiadau yn ystod 2025–26 i baratoi ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg. Bydd TWW yn parhau i gymryd rhan mewn sesiynau perthnasol a gynhelir gan Gomisiynydd y Gymraeg a Thai Cymunedol Cymru er mwyn parhau i fod yn wybodus, meithrin cysylltiadau, a mabwysiadu dull rhagweithiol drwy gydol y cyfrnod gosod. Bydd ymgysylltu yn y fforymau hyn hefyd yn galluogi'r sefydliad i ddysgu gan sefydliadau sydd eisoes wedi gweithredu'r Safonau. Bydd CTCC yn sefydlu grŵp gwaith sector-gyfan ac yn rhannu arfer da i gefnogi cymdeithasau tai yn ystod y cyfnod pontio.

## 9.0 Argymhellion

ARGYMHELLIR bod y Bwrdd: -

i. Yn nodi'r adroddiad hwn; a
ii. cymeradwyo’r cynllun gweithredu yn Atodiad 1.

**Alex Stephenson**
**Cyfarwyddwr Gweithredol (Strategaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau)**

16 Ebrill 2026